

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Tynycoed, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 14 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 16 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Tyncoed, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar 14 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd dau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a naw gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn cynnig ystod eang o wybodaeth hybu iechyd am bynciau fel brechiadau a rheoli pwysau. Roedd yn cydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau i sicrhau bod gwasanaethau ffisiotherapi, iechyd meddwl a fferyllwyr ar gael. Roedd arferion canmoladwy y practis yn cynnwys defnyddio peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer pwysau, taldra a phwysedd gwaed, gydag apwyntiadau dilynol yn cael eu trefnu pe bai angen.

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac roedd y staff yn sicrhau eu preifatrwydd yn ystod ymgynghoriadau. Roedd staff y dderbynfa yn broffesiynol ac yn gefnogol, ac yn aml yn mynd gam ymhellach ar gyfer y cleifion. Roedd cyfrinachedd yn cael ei gynnal drwy alwadau ffôn preifat ac ardaloedd ar wahân yn y dderbynfa.

Roedd y practis yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn amserol, ac roedd modd trefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd apwyntiadau brys ac apwyntiadau cyffredin ar gael. Roedd y swyddogion llywio gofal yn cyfeirio'r cleifion at y gwasanaethau priodol yn effeithlon, ac yn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau brys ar yr un diwrnod.

Roedd y prosesau cyfathrebu yn glir ac wedi'u teilwra i anghenion y cleifion, ac roedd cymorth ar gael i'r rhai a oedd yn drwm eu clyw yn ogystal ag opsiynau cyfathrebu nad oeddent yn ddigidol. Roedd meddygon a oedd yn siarad Cymraeg yn y practis ac roedd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio pan fo angen. Roedd y prosesau cyfathrebu mewnol yn effeithlon, ac yn sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth am gleifion mewn modd amserol.

Roedd y practis yn hygyrch, gyda chyfleusterau ar y llawr gwaelod ac roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Roedd y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfleoedd i'r cleifion wirio a monitro eu pwysau a'u pwysedd gwaed
- Roedd staff y dderbynfa yn rhoi cymorth i'r cleifion
- Roedd y practis yn cynnig gwasanaeth hebryngwr
- Roedd staff clinigol a oedd yn siarad Cymraeg ar gael i gynnal ymgynghoriadau â chleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant. Roedd trefniadau Atal a Rheoli Heintiau ar waith ond roedd angen eu hatgyfnerthu mewn mannau, er enghraifft, roedd angen arweinydd atal a rheoli heintiau, hyfforddiant cynhwysfawr a phrosesau archwilio.

Roedd gweithdrefnau diogelu ar waith ar gyfer plant ac oedolion, ond nid oedd tystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant ar gyfer eu rôl. Nid oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi cael eu cwblhau ar gyfer y staff gweinyddol, ond cymerwyd camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad.

Roedd prosesau ar waith i gefnogi gofal cleifion diogel ac effeithiol, ond dylai'r practis wella'r broses o gofnodi digwyddiadau a dysgu o gamgymeriadau a fu bron â digwydd. Roedd dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cwblhau ar gyfarpar adfywio a chyffuriau brys. Roedd prosesau hefyd ar waith ar gyfer rhagnodi a rheoli meddyginiaeth yn ddiogel, gan gynnwys ymdrin â ffurflenni presgripsiwn yn ddiogel a blwch meddyginiaeth nodedig ar gyfer ymweliadau cartref.

Roedd cofnodion y cleifion yn ddiogel ac yn cael eu cwblhau'n effeithiol, ond nodwyd anghysondebau o ran codau Read a'r rhwyd ddiogelwch. Awgrymwyd y dylid cynnal archwiliad i sicrhau cysondeb.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Polisi, prosesau a hyfforddiant atal a rheoli heintiau
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu a chadw cofnod o bresenoldeb yr aelodau hyn mewn sesiynau hyfforddiant
- Ystyried diweddarau'r rhestrau gwirio i gynnwys dyddiadau dod i ben nwyddau traul
- Adolygu'r prosesau sydd ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau o bwys a chamgymeriadau a fu bron â digwydd i sicrhau bod y tîm cyfan yn dysgu gwersi
- Sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys codau Read cyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymorth i gleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl

- Ystafelloedd trin glan a thaclus
- Roedd y diffibriliwr a'r cyffuriau brys wedi'u lleoli mewn man canolog yn y practis ac roeddent yn cael eu gwirio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis wedi rhoi prosesau ar waith ar gyfer llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd, ac roedd rolau a chyfrifoldebau'r staff yn glir. Roedd cyfarfodydd rheolaidd a pholisi drws agored yn meithrin amgylchedd cefnogol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau wrth reoli dogfennau.

Roedd y gweithlu yn fedrus ac yn ymrwymedig, ac roedd cymorth cynhwysfawr ar gael i feddygon teulu dan hyfforddiant. Roedd system newydd ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, ond roedd angen safoni a diweddarau ffeiliau'r staff. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac roedd systemau TGCh angenrheidiol ar gael iddynt.

Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion ac yn rheoli cwynion yn effeithiol. Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith, ac roedd data am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd gweithgareddau gwella ansawdd yn cynnwys archwiliadau clinigol a phrosiectau fel yr un ar gyfarpar adfywio brys.

Roedd partneriaethau â rhanddeiliaid gofal iechyd allanol yn gadarn ac yn gwella gofal integredig. Roedd y practis yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol a chyfarfodydd clwstwr i fynd i'r afael â heriau ac anghenion gofal iechyd lleol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried ffyrdd o rannu cofnodion cyfarfodydd â'r staff
- Atgyfnerthu prosesau rheoli ac adolygu dogfennau ar gyfer yr holl bolisiau a gweithdrefnau
- Gwella prosesau i fonitro presenoldeb y staff mewn sesiynau hyfforddiant gorfodol
- Adolygu a diweddarau ffeiliau staff safonol i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfleoedd i'r cleifion wirio a monitro eu pwysau a'u pwysedd gwaed
- Roedd staff y dderbynfa yn rhoi cymorth i'r cleifion

- Roedd y practis yn cynnig gwasanaeth hebryngwr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion ac yn cael ei hyrwyddo drwy wefan y practis. Gwelsom wybodaeth hybu iechyd am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys brechiadau, rheoli pwysau a gwybodaeth i ofalwyr.

Gwnaethom nodi enghreifftiau o arfer da i gefnogi anghenion y cleifion a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys Grŵp Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr a Macmillan a oedd yn mynd i'r practis i hyrwyddo eu gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol drwy eu grŵp clwstwr. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad i ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl a fferyllwyr, ac yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth gan asiantaethau eraill mewn ffordd amserol.

Gwelsom y gallai'r cleifion ddefnyddio'r peiriant pwysau, taldra a phwysedd gwaed ac y byddai'r peiriant hwn yn argraffu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i ddiweddarau eu cofnodion. Os byddai unrhyw un o'r darlleniadau hyn yn peri pryder, byddai'r derbynnydd sy'n mewnbynnu'r wybodaeth yn trefnu apwyntiad i'r claf weld clinigydd perthnasol er mwyn adolygu'r mater. **Nodwyd bod hyn yn arfer da a chanmoladwy.**

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Gwelsom sawl enghraifft dda lle aeth aelod o staff y dderbynfa "gam ymhellach" i ddiwallu anghenion y cleifion. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i

ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd gwydr i wahanu desg y dderbynfa, gan gynnwys ar yr ochrau, a oedd yn cynnig rhyw lefel o breifatrwydd o'r ardal aros.

Gwelsom hysbysiadau'n cael eu harddangos yn cynnig gwasanaeth hebryngwr. Roedd y feddygfa'n cynnig hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd, ac roedd hyn yn cynnwys staff clinigol ac anghlinigol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn gan mwyaf, ond roedd modd trefnu apwyntiadau drwy system ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd.

Dywedwyd wrthym fod modd trefnu apwyntiadau brys drwy ffonio'r practis am 0800. Roedd apwyntiadau cyffredin ar gael hyd at bythefnos o flaen llaw drwy gysylltu â'r practis am 1400.

Gwnaethom nodi bod y swyddogion llywio gofal wedi rhoi llwybr da ar waith, gan neilltuo cleifion i'r person neu'r gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y swyddogion llywio gofal yn gallu cysylltu â meddyg a oedd ar gael i roi arweiniad yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym yr ymdrinnir â'r holl geisiadau brys ar yr un diwrnod. Roedd staff y dderbynfa hefyd yn gallu cyfeirio cleifion at nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd, gwasanaethau clwstwr a'r fferyllfa leol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd gan y feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai sy'n drwm eu clyw hefyd.

Fel arfer, mae cleifion yn cael gwybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os yw'n hysbys nad oes gan gleifion fynediad digidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Roedd tri meddyg a oedd yn siarad Cymraeg ar gael yn y practis, a gwelsom arwydd a oedd yn nodi y gallai'r cleifion gael eu hapwyntiad drwy gyfrwng y Gymraeg ar

gais. Dywedwyd wrthym nad oedd poblogaeth y cleifion yn arbennig o amrywiol ac y defnyddir y gwasanaethau cyfieithu pan fo angen i gefnogi'r cleifion yr oedd angen gwasanaethau mewn iaith wahanol arnynt.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan wasanaeth gofal eilaidd a gweithredu yn ei chylch. Roedd llythyrau a dogfennau yn cael eu sganio ar nodiadau cleifion a'u hanfon at yr ymarferydd gofal iechyd cywir er mwyn gweithredu yn eu cylch yn ôl yr angen. O'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y staff gofal iechyd wedi rhoi gwybodaeth i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol.

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n fewnol i'r bobl briodol gan ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r practis.

Hawliau a chydaddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd pob un o'r cleifion a oedd yn ymateb i'n holiadur o'r farn fod yr adeilad yn hygyrch iawn.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ond nid oedd cofnod ar gael i gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Cadarnhaodd yr holl staff a atebodd y cwestiwn nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac y cedwir cofnod er mwyn rhoi tystiolaeth o hyn.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd arweinwyr y practis bod y practis yn darparu gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer cleifion trawsryweddol, gan gynnwys cleifion nad ydynt o bosibl wedi'u cofrestru â'r practis. Cadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da ar y cyfan.

Roedd boeler dŵr poeth diffygiol yn effeithio ar y cyflenwad dŵr poeth yn hanner yr ystafelloedd trin. Roedd hyn yn golygu mai dim ond dŵr oer oedd ar gael mewn rhai ystafelloedd. Fodd bynnag, roedd y practis wedi trefnu bod y system yn cael ei hatgyweirio ymhen wythnos. Nododd arweinydd yr arolygiad y mater hwn fel pryder uniongyrchol yn ystod yr arolygiad ac oherwydd hynny, gwnaethom edrych ar ohebiaeth briodol â'r staff ynghyd ag asesiadau risg. **Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

Roedd cynllun parhad busnes ar waith ac roedd yn cynnwys y cynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw absenoldeb staff tymor hir.

Gwnaethom edrych ar sut roedd rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu derbyn a'u dosbarthu i'r practis a'u rhannu mewn cyfarfodydd. Roedd proses ar waith i reoli rhybuddion diogelwch cleifion.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd rhai trefniadau atal a rheoli heintiau ar waith ac roeddent yn dderbyniol, ond mae angen atgyfnerthu rhai ohonynt er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion. Caiff y rhain eu nodi yn yr adran isod.

Gwelsom y polisiau lleol ar gyfer rheoli feirysau a gludir yn y gwaed, rheoli offer miniog a rheoli gwastraff. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Gwnaethom nodi bod y gwastraff yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth mewn perthynas â'r broses lanhau a dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio cwmni glanhau newydd. Gwelsom dempled o'r amserlenni glanhau, ond nid oedd amserlenni wedi'u cwblhau ar gael gan fod y cwmni glanhau newydd ddechrau yr wythnos honno.

Dywedwyd wrthym fod meddyg teulu arweiniol ar gyfer atal a rheoli heintiau, ond nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cadarnhau enw'r unigolyn hwnnw.

Disgrifiodd y staff drefniadau addas i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd cofnodlyfr brechiadau Hepatitis B a gwrthgyrff ar waith yn rhannol a gwnaethom ei weld yn ystod yr arolygiad. Roedd y cofnodlyfr hwn yn cynnwys dyddiadau brechu a statws imiwnedd rhai aelodau o'r staff clinigol. Gofynnwyd i reolwr y practis ddiweddarau'r cofnodlyfr i sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael brechiadau a'u statws imiwnedd rhag Hepatitis B. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn ystod ein harolygiad. **Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

Nid oedd unrhyw ddogfennau archwilio prosesau atal a rheoli heintiau ar gael i'w hadolygu ac nid oedd y staff yn gallu cadarnhau pryd y cafodd archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal. Rydym yn argymhell y dylid cwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau manwl a rhoi rhaglen archwilio ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â safonau atal a rheoli heintiau cydnabyddedig. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw faterion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu nodi a'u trin yn gyflym.

Nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Gwnaethom edrych ar dystiolaeth i gadarnhau bod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau wedi cael ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff dros yr wythnosau nesaf a chafodd system i fonitro ac olrhain cydymffurfiaeth â hyfforddiant ei rhannu â'r tîm arolygu.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi a'r prosesau atal a rheoli heintiau yn cael eu hadolygu'n gynhwysfawr, eu gwella a'u rhannu â'r staff i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol. Gan gynnwys:

- Arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig
- Cwblhau a chofnodi hyfforddiant pob aelod o'r staff ar atal a rheoli heintiau, gan gynnwys hyfforddiant lefel tri ar gyfer yr arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig
- Rhoi prosesau archwilio atal a rheoli heintiau ar waith
- Dogfennau mewn perthynas â'r amserlen lanhau
- Statws imiwnedd rhag Hepatitis B y staff clinigol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd y broses i gleifion wneud cais am feddyginiaeth reolaidd yn glir, a gellid gwneud hyn drwy Fy lechyd Ar-lein, drwy geisiadau am bresgripsiynau rheolaidd gan fferyllfa benodol, a cheisiadau personol yn y practis. Roedd archwiliadau adolygu meddyginiaethau cleifion yn cael eu cynnal ac roedd meddyginiaethau yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr presgripsiynau rheolaidd os nad oedd claf yn eu cymryd mwyach.

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod ffurflenni presgripsiwn gwag yn ddiogel.

Roedd “blwch meddyginiaeth ymweliadau cartref” ar gael ar gyfer clinigwyr a oedd yn ymweld â chleifion gartref. Roedd y blwch hwn yn cael ei reoli'n ganolog ac yn cynnwys rhestrau gwirio priodol. **Nodwyd bod hyn yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom broses archebu brechiadau syml ac effeithiol.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis a gwelsom fod polisi ar waith sy'n cynnwys oedolion a phlant. Roedd y polisi ar gael i bob aelod o'r staff ar y gyriant a rennir. Roedd gan y practis arweinwyr diogelu wedi'u henwi a oedd wedi'u cofnodi yn y polisi. Roedd gweithdrefnau diogelu ar gael ym mhob ystafell ymgynghori.

Yn ystod yr arolygiad, nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol. Fodd bynnag, rydym bellach wedi cael cadarnhad bod yr hyfforddiant diogelu gofynnol wedi cael ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff, a bod y dyddiadau wedi'u cadarnhau.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.

Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer y staff clinigol, ond nid oedd y gwiriadau hyn wedi cael eu cwblhau ar gyfer y staff gweinyddol. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio fel pryder yn ystod yr arolygiad. Aeth rheolwr y practis i'r afael â hyn ar unwaith, ac rydym bellach wedi cael cadarnhad o'r broses newydd ar gyfer gwiriadau DBS yn y dyfodol. Cawsom gadarnhad hefyd fod ffurflenni gwiriadau DBS wedi cael eu cyflwyno ar gyfer pob aelod o'r staff gweinyddol. **Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd prosesau ar waith yn y practis i gynnal a chadw dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn ddiogel. Roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac wedi'u gwirio'n briodol. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio cyfarpar perthnasol neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Roedd y rhain yn cyrraedd y safonau cyfarpar gofal sylfaenol a amlinellir yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Gwnaethom edrych ar y prosesau oedd ar waith ar gyfer gwirio'r holl gyfarpar adfywio, y cyffuriau brys perthnasol, a'r ocsigen cludadwy, a'u newid lle roedd angen. Roedd y gwiriadau yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n rheolaidd. Dylai'r practis ystyried diweddarau ei restr wirio i gynnwys edrych ar ddyddiadau dod i ben nwyddau traul.

Roedd tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio ddwywaith neu deirgwaith yr wythnos; fodd bynnag, dylid gwneud hyn yn ddyddiol. Diwygiwyd y broses ar gyfer gwirio tymheredd yr oergell yn ystod yr arolygiad a gwelsom gadarnhad o'r broses ddyddiol newydd. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu hanfon at y staff drwy e-bost a'u trafod â nhw a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd prosesau ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys trafodaethau mewn cyfarfodydd clinigol mewnol ac roedd cofnodion yn cael eu cadw. Fodd bynnag, nid oedd yn glir lle roedd y gwersi a ddysgwyd a'r digwyddiadau a fu bron â digwydd yn cael eu trafod.

Dylai'r practis ystyried adolygu'r prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu gan y tîm cyfan.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau

ymchwiliadau/profion ac roedd naratif ynddynt o ran pam gofynnwyd am yr ymchwiliadau.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant anffurfiol ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Roedd y staff a oedd yn ateb galwadau yn ymwybodol o'r gwasanaethau lleol gan gynnwys y tîm argyfwng a gwasanaethau lleol eraill fel Mind a'r Samariaid. Mae staff y dderbynfa yn ymwybodol o'r risgiau yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl ac roeddent yn atgyfeirio cleifion at y meddyg teulu brysennu neu at wasanaethau eraill.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig wyth claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall. Fodd bynnag, gwelsom anghysondebau o ran codau Read mewn rhai cofnodion. At hynny, roedd rhwyd ddiogelwch wedi'i nodi yng nghofnodion rhai o'r cleifion ond nid mewn cofnodion eraill.

Rhaid i'r practis archwilio cofnodion y cleifion a'r ffordd y defnyddir codau Read yn ogystal â nodi sgysiau am rwydi diogelwch er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chofnodi mewn ffordd gyson.

Gwelsom fod y gofal parhaus yn dda, gyda'r cleifion a'u cofnodion yn cael eu goruchwyllo'n agos gan bob meddyg teulu. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos ymgynghoriadau â chleifion o ansawdd da.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Gwelsom dîm o bartneriaid meddyg teulu cydlynol a oedd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, yn darparu cymorth cymheiriaid a chymorth datblygu. Roedd y meddygon yn cael cyfarfodydd / sesiynau dal i fyny anffurfiol bob dydd i sicrhau bod cymorth cymheiriaid a chynghor ar gael i gydweithwyr bob amser. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi cael ymateb da gan y staff.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu mynd at yr arweinwyr i fynegi unrhyw bryderon ac y byddent yn ymdrin â nhw'n briodol. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod polisi drws agored ar waith er mwyn i'r staff allu rhannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Disgrifiwyd y prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, fel newidiadau mewn polisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir a byddai pob aelod o'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau drwy gyfarfodydd tîm ac e-bost.

Cawsom gofnodion a chmau gweithredu o gyfarfodydd; fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu rhannu fel mater o drefn â phob aelod o staff y practis, ac nid oeddent yn cael eu cadw ar y gyriant a rennir.

Dylai'r practis ystyried cadw cofnodion cyfarfodydd nad ydynt yn gyfrinachol ar gyriant a rennir er mwyn i'r staff gael gafael arnynt a gweithredu ar faterion.

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a gafodd eu diweddarau'n ddiweddar, a dywedwyd wrthym eu bod yn hygyrch i'r staff. Fodd bynnag, prin oedd y systemau rheoli dogfennau a oedd ar waith, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.

Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu er mwyn cynnwys proses rheoli ac adolygu dogfennau gadarn a sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd nifer o feddygon teulu dan hyfforddiant wedi cael eu dyrannu i'r practis, ac roedd cymorth a chynlluniau datblygu cynhwysfawr ar waith i'w cefnogi.

Roedd proses newydd ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol. Bydd hyn yn helpu i nodi cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn hawdd ynghyd â'r rhai y mae angen iddynt ddiweddarau eu hyfforddiant. Felly, nid oedd yn bosibl cadarnhau cydymffurfiaeth flaenorol y staff â hyfforddiant yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant gorfodol a dylid rhoi system ar waith i gofnodi cydymffurfiaeth.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a oedd yn amrywio o ran ansawdd, ac roedd rhai dogfennau allweddol ar goll o rai ohonynt.

Rhaid i'r practis adolygu'r broses sydd ar waith i reoli cofnodion y staff, a ddylai gynnwys copi o'u contract, eu statws DBS, eu statws brechu (lle y bo'n berthnasol), geirdaon a thystiolaeth o hyfforddiant.

Rhodddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Roedd systemau TGCh priodol ar gael i'r staff i'w helpu i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion. Roedd yr aelodau o'r staff a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis, bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, a'u bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith. Roeddent hefyd yn teimlo bod yr holl ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar perthnasol ar gael i'w galluogi i wneud eu gwaith.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno a pholisi cwyno i gleifion a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin

ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno. Caiff cwynion/pryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff.

Roedd poster yn cael ei arddangos yn yr ardal aros a oedd yn dangos y ffyrdd y gall cleifion roi adborth.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn y practis. Roedd yn amlwg bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd tystiolaeth bod rhai prosesau archwilio clinigol a mewnlol ar waith er mwyn monitro ansawdd. Dywedwyd wrthym fod yr holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob rhan o'r practis er mwyn gwneud gwelliannau. Roedd un meddyg teulu dan hyfforddiant wedi cwblhau prosiect Gwella Ansawdd mewn perthynas â'r cyfarpar adfywio brys, a gafodd ei ganmol yn fawr.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Darparodd y practis enghreifftiau o'r effaith y mae'n ei chael, fel rhanddeiliad yng ngofal cleifion, ar rannau eraill o'r system gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys dilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd. Mae'r practis hefyd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â phartneriaid y system mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol amrywiol, fel cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rheolwyr practisau.

Roedd cydberthnasau cydweithredol da ar waith â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr. Roedd y practis yn gweithio gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd boeler dŵr poeth diffygiol yn effeithio ar y cyflenwad dŵr poeth yn hanner yr ystafelloedd trin. Roedd hyn yn golygu mai dim ond dŵr oer oedd ar gael mewn rhai ystafelloedd. Roedd y practis wedi trefnu bod y system yn cael ei hatgyweirio ymhen wythnos.	Yr effaith bosibl oedd na fyddai modd i bob aelod o'r staff clinigol ddefnyddio dŵr poeth i olchi eu dwylo rhwng cleifion gyda risg bosibl o ran atal a rheoli heintiau.	Gwnaeth arweinydd yr arolygiad godi'r mater hwn fel pryder uniongyrchol gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd bod dŵr poeth ar gael yn hanner yr ystafelloedd ymgynghori a bod disgwyl i'r boeler gael ei drwsio yn fuan. Aeth ati i ailrannu camau gweithredu priodol i'r staff eu dilyn er mwyn sicrhau bod y staff i gyd yn gallu golchi eu dwylo mewn dŵr poeth i liniaru unrhyw effaith bosibl. Roedd hyn yn cynnwys anfon e-bost at bob aelod o staff yr effeithir arnynt yn nodi y dylent ddefnyddio'r dŵr poeth mewn ystafelloedd eraill fel mesur dros dro i sicrhau eu bod yn cadw at y mesurau atal a rheoli heintiau

Er bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer y staff clinigol, gwelwyd cofnodion DBS anghyflawn ar gyfer y staff gweinyddol yn ystod yr arolygiad.	Roedd y ffaith nad oedd gan y staff gweinyddol gliriad DBS digonol yn peri risg.	Nodwyd bod hyn yn bryder yn ystod yr arolygiad. Aeth rheolwr y practis i'r afael â hyn ar unwaith.	Cadarnhaodd rheolwr y practis y broses newydd ar gyfer gwiriadau DBS yn y dyfodol. Y diwrnod canlynol, cawsom gofnodion i gadarnhau bod ffurflenni gwiriadau DBS wedi cael eu cyflwyno ar gyfer pob aelod o'r staff gweinyddol. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn ddigonol yn ystod yr arolygiad.
Ar adeg yr arolygiad, roedd tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio ddwywaith neu deirgwaith yr wythnos ac nid oedd hyn yn cydymffurfio â'r canllawiau storio meddyginiaeth sy'n argymhell y dylid gwirio tymheredd oergelloedd meddyginiaeth yn ddyddiol.	Roedd hyn yn peri risg y byddai nam ar yr oergell / cynnydd mewn tymheredd yn golygu nad yw'r feddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd gofynnol o bosibl.	Cododd y rheolwr arolygu hwn fel mater annigonol gyda rheolwr y practis.	Cafodd prosesau gwirio tymheredd yr oergell eu haddasu yn ystod yr arolygiad a chafwyd cadarnhad o'r broses ddyddiol newydd yn ystod yr arolygiad.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Tynycoed

Dyddiad yr arolygiad: 14 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Tynycoed

Dyddiad yr arolygiad: 14 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd angen atgyfnerthu'r trefniadau atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi a'r prosesau atal a rheoli heintiau yn cael eu hadolygu'n gynhwysfawr, eu gwella a'u rhannu â'r staff i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol. Gan gynnwys - arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir - Cwblhau a chofnodi hyfforddiant pob aelod o'r staff ar atal a rheoli heintiau, gan	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Penodi arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir, a gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant	Dr Penry / Scott Moore	Erbyn diwedd mis Ebrill

		gynnwys hyfforddiant lefel tri ar gyfer yr arweinydd atal a rheoli heintiau - Prosesau a dogfennaeth archwilio atal a rheoli heintiau - Taflenni gwirio a monitro'r broses lanhau - Proses monitro Hepatitis B wedi'i diweddarau a chofnodlyfr llawn.				
2.	Yn ystod yr arolygiad, nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol. Fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod yr hyfforddiant diogelu	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	Pob aelod o'r staff i gwblhau hyfforddiant	Scott Moore	Erbyn diwedd mis Ebrill

	gofynnol wedi cael ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff, a bod y dyddiadau wedi'u cadarnhau.					
3.	Nid oedd rhai o'r rhestrau gwirio meddyginiaeth a chyfarpar a welsom yn cynnwys dyddiadau dod i ben nwyddau traul	Dylai'r practis ystyried diweddaru ei restr wirio i gynnwys dyddiadau dod i ben nwyddau traul.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithlon	Ychwanegu dyddiadau at y nwyddau traul	Scott Moore	Erbyn diwedd mis Ebrill
4.	Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac y cedwir cofnodlyfr o'r hyfforddiant a gaiff ei gwblhau	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Teg	Pob aelod o'r staff i gwblhau hyfforddiant	Scott Moore	Erbyn diwedd mis Ebrill
5.	Roedd prosesau rheoli dogfennau yn anghyson ac nid oedd pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol ac yn benodol i'r practis	Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu er mwyn cynnwys proses rheoli ac adolygu dogfennau ddigonol sy'n sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn cael eu	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithiol	Rheolwr y Practis i lunio rhestr a sicrhau bod y staff yn ei llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen y polisiau	Scott Moore	Erbyn diwedd mis Ebrill

		hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff				
6.	System newydd ar waith ar gyfer cofnodi a monitro cyrsiau hyfforddiant gorfodol	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau cyrsiau hyfforddiant gorfodol pob aelod o'r staff a rhoi system ar waith i sicrhau bod modd adolygu a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, a'i gwella pan fo angen	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithiol	Pob aelod o'r staff i gwblhau hyfforddiant	Scott Moore	Erbyn diwedd mis Ebrill
7.	Gwelwyd anghysondebau yng nghofnodion rhai cleifion o ran y ffordd roedd clinigwyr yn defnyddio codau Read ac yn cofnodi rhwydi diogelwch	Rhaid i'r practis archwilio cofnodion y cleifion a'r ffordd y defnyddir codau Read er mwyn sicrhau y defnyddir dull cofnodi cyson	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Meddygon teulu i adolygu codau Read	Dr Penry	Erbyn mis Mai
8.	Nid oedd y prosesau digwyddiadau o bwys a welsom yn dogfennu sut y caiff gwersi eu dysgu ac nid oedd unrhyw broses ar	Dylai'r practis ystyried adolygu'r prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau o bwys a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, er mwyn	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Creu ffurflen newydd a chynnwys mwy o staff	Dr Richards	Erbyn mis Mai

	waith ar gyfer camgymeriadau a fu bron â digwydd.	sicrhau y caiff gwersi eu dysgu gan y tîm cyfan.				
9.	Roedd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cadw ond nid oeddent bob amser ar gael i'r staff eu gweld.	Dylai'r practis ystyried cadw cofnodion o gyfarfodydd staff nad ydynt yn gyfrinachol ar yriant a rennir er mwyn i'r staff gael gafael arnynt a gweithredu ar faterion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithiol	Ychwanegu at yriant a rennir	Scott Moore	Wedi'i gwblhau
10.	Gwnaethom edrych ar rai o ffeiliau'r staff ar y safle. Roedd y rhain yn amrywio o ran ansawdd ac roedd dogfennau allweddol ar goll o rai ohonynt.	Rhaid i'r practis gwblhau adolygiad cynhwysfawr a diweddarau a safoni ffeiliau'r staff i gyd (electronig / papur) gan gynnwys contractau, ffurflenni cais, DBS, statws brechu ac iechyd, geirdaon a thystysgrifau hyfforddiant.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithiol	Mae ffeiliau'r staff wedi cael eu diweddarau/ mae'r gwiriadau DBS wedi'u cynnal	Scott Moore	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Scott Moore

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: **13.03.25**